

Therapi Cerddoriaeth

HELEN GWILLIM AC AMY SLATER



Helen



Amy

Therapyddion Cerddoriaeth yn YYD

- 2 o therapyddion cerddoriaeth: Helen Gwillim (Dydd Llun - Dydd Iau), Amy Slater (Dydd Mercher - Dydd Gwener)
- Wedi cofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Gofal Iechyd
- Gradd Feistr mewn Therapi Cerddoriaeth

Beth yw Therapi Cerddoriaeth?



"Therapi Cerddoriaeth yw defnyddio synau a cherddoriaeth o fewn perthynas sy'n datblygu rhwng [disgybl] a therapydd i gefnogi ac annog lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol."





Ymlyniad a pherthynas diogel

Pwy all elwa?/Sut gallwn ni helpu?

- Disgyblion gydag anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, gan gynnwys ymlyniad ac anhwylder trawma datblygiadol
- Prosesu teimladau profedigaeth
- Iselder/gorbryder
- Helpu hunan-reoli
- Annog cyfathrebu cymdeithasol a chwarae cydweithredol
- Hyrwyddo cyfathrebu ar lafar a chyfathrebu nad yw'n llafar
- Cymhelliant ar gyfer symudiad corfforol



Prif dechnegau therapi cerddoriaeth





- Byrfyfyrio
- Ysgrifennu caneuon
- Technegau parod i dderbyn
- Caneuon strwythuredig

Stori disgybl A….





Matilda'r mwnci! (Chwaraewch y fideo)

- Annog sgiliau lleferydd, cyfathrebu ac iaith, dychymyg a chwarae!
- Daw'r fideo hwn o wefan Music Therapy Connections NI website (www.mtcni.co.uk)



Sut mae Therapi Cerddoriaeth yn helpu?



“Pan dwi’n cael therapi cerddoriaeth mae’n gwneud i mi deimlo fel fy mod mewn lle diogel, a gallaf fynegi fy nheimladau. Rwy’n gallu dweud pethau drwy ysgrifennu caneuon na fyddwn i’n gallu eu dweud wrth bobl wyneb yn wyneb. Mae’n gwneud i mi deimlo’n hapus a dwi’n edrych ymlaen yn fawr at yr wythnos nesaf oherwydd dwi’n mwynhau gallu siarad gyda chi. Gallaf ddibynnu arnoch bob amser ac rydych chi’n gwrando arnaf ac yn fy helpu. Mae’n gwneud i mi deimlo fel bod rhywun yn gwrando a dwi’n hoffi chwarae’r offerynnau’n uchel os ydw i’n flin neu’n drist. Ac mae’n fy stopio rhag taro pobl eraill os ydw i mewn hwyliau drwg, ac rwy’n gadael eich ystafell yn hapus eto.“

Y Broses Atgyfeirio

- ***Gyriant gweinydd a rennir: Forms – Music Therapy – Music therapy referral form.***

  hgwillim@yyd.org.uk *ac* ***aslater@yyd.org.uk***

- Cyfnod asesu 6 wythnos.

Rhesymau dros atgyfeirio

- Mae'r plentyn yn arddangos ymddygiad anodd sy'n golygu bod mathau eraill o ymyrraeth yn anodd, ond mae'n cael ei ostegu/cymell gan gerddoriaeth.
- Mae dulliau cyfathrebu'r plentyn yn gyfyngedig, ac mae ganddo anghenion emosiynol sylweddol.
- Mae dulliau chwarae'r plentyn yn gyfyngedig, ond mae'n sylwi ar synau/cerddoriaeth.
- Plentyn sy'n derbyn gofal sy'n golygu anghenion emosiynol sylweddol/anhwylder ymlyniad.
- Pryderon amddiffyn plant.
- Sgiliau cyfathrebu cymdeithasol cyfyngedig a dim llawer o berthnasoedd gyda chyfoedion.